


Ail Gynllun Datblygu
Lleol Newydd Bwrdeistref
Sirol Caerffili 2020-2035

# EB4.1 Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai (Atodiad)

***Ionawr 2025***

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

This document is available in English,
and in other languages and formats on request.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac
mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

# Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020–2035

# EB4.1 Atodiad i Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai Ionawr 2025

## Cyflwyniad

Dechreuodd y Cyngor y gwaith ar Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035 (2RLDP) ym Mis Hydref 2020. Bydd yr 2RLDP ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2035.

Ymgynghorodd y Cyngor ar ei Gynllun Cyn Adneuo cyntaf ar gyfer yr 2RLDP ym mis Hydref a mis Tachwedd 2022. Cafwyd Gwrthwynebiadau Cydymffurfiaeth i'r cynllun gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â dyraniad y Safle Strategol, y dull a chyd-destun rhanbarthol o ran twf, a'r dull gweithredu seiliedig ar natur. O ganlyniad i'r gwrthwynebiadau hyn, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r strategaeth Cyn Adneuo.

O ystyried bod newidiadau wedi'u gwneud i'r strategaeth (Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig), mae'r Cyngor yn cymryd cam yn ôl yn y broses ac yn cynnal ail ymgynghoriad ar y Cynllun Cyn Adneuo gyda'i ddiwygiadau.

# Newidiadau i’r Cynllun Cyn Adneuo

Cafodd y papur sylfaen dystiolaeth, *EB4 Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai Hydref 2022* ei lunio yn ystod y gwaith o baratoi’r Cynllun Cyn Adneuo ym mis Hydref 2022. Ers hynny, mae nifer o newidiadau wedi’u gwneud, ac mae’r Atodiad hwn wedi’i lunio i fynd i’r afael â’r newidiadau hyn.

## Cyfrifiad 2021

Rhan allweddol o’r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yw ystyried lefel y boblogaeth a fydd yn byw yn y Fwrdeistref Sirol ar ddiwedd cyfnod y cynllun. Bydd y gwahaniaeth rhwng y boblogaeth bresennol a’r boblogaeth ar ddiwedd cyfnod y cynllun yn darparu’r sylfaen ar gyfer nodi nifer yr anheddau y bydd angen eu darparu, nifer y swyddi sy’n debygol o fod eu hangen, a’r isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol y bydd eu hangen i ddiwallu anghenion yr holl drigolion.

Ers cyhoeddi’r Cynllun Cyn Adneuo cyntaf ym mis Hydref 2022, mae data Cyfrifiad 2021 wedi’u cyhoeddi ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amcangyfrifon canol blwyddyn diwygiedig sydd â lefel sylfaen newydd i adlewyrchu data’r Cyfrifiad. Mae gan hyn oblygiadau penodol i Fwrdeistref Sirol Caerffili gan fod y Cyfrifiad wedi nodi bod y boblogaeth yng Nghaerffili ychydig dros 5,000 o bobl yn llai na’r amcangyfrifon canol blwyddyn a nodwyd. Mae’r amcangyfrifon canol blwyddyn newydd yn dangos poblogaeth gychwynnol is na’r hyn sydd wedi’i ddefnyddio ar gyfer yr opsiynau twf strategol a bydd hyn yn arwain at sgil-effeithiau ar lefel gyffredinol y boblogaeth a strwythur y Fwrdeistref Sirol ar ddiwedd cyfnod y cynllun. O ganlyniad i hyn, mae’r Cyngor wedi diweddaru ei opsiwn twf a ffefrir i gyd-fynd â Chyfrifiad 2021 a’r amcangyfrifon canol blwyddyn newydd.

Er bod Cyfrifiad 2021 wedi newid y man cychwyn ar gyfer amcanestyniadau ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae’r materion sylfaenol a’r rhesymau dros ddewis yr opsiwn twf a ffefrir (Senario J) yn aros yr un fath (nodir y rhesymau hyn ym Mhennod 1 EB4 Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai). O ganlyniad, er gwaethaf y newid yn y man cychwyn, mae'r Cyngor yn parhau i gredu mai Senario J yw'r opsiwn twf priodol ar gyfer yr 2RLDP. Oherwydd hyn, dim ond Senario J y mae’r Cyngor wedi edrych arno eto wrth fynd i'r afael â Chyfrifiad 2021 a'r amcangyfrifon canol blwyddyn newydd.

## Asesiad rhanbarthol o dwf a mudo yn y dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

I fynd i’r afael ag un o Wrthwynebiadau Cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru, comisiynodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio De-ddwyrain Cymru, ar y cyd â Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru, ymgynghorwyr i gynnal astudiaeth ar dwf a mudo rhanbarthol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ystyriodd yr astudiaeth hon y sgôp ar gyfer twf poblogaeth a thwf economaidd o fewn y rhanbarth mewn senario nad yw’n bolisi, gan nodi’r hyn y gellid ei gyflawni gydag ymyriadau polisi

penodol. Ar gyfer Caerffili, nododd yr astudiaeth lefelau twf a oedd yn gymesur â'r rhai a nodwyd yn amcanestyniadau gwreiddiol Opsiwn J, sy'n golygu nad oes angen newid yr opsiwn twf a ffefrir ar sail hyn.

# SENARIO J – Twf ym Mhoblogaeth Oedran Gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Diweddariad 2024

## Crynodeb wedi'i ddiweddaru o Senario J

| | |
|---|---|
| Newid yn y Boblogaeth 2020-2035 | 11,603 |
| Newid yn y Boblogaeth Oedran Gweithio | 3,005 |
| Cyfanswm y gofyniad am anheddau | 6,750 |
| Gofyniad blynyddol am anheddau | 450 |
| Darpariaeth Tai: Gofyniad Tai a Lwfans Hyblygrwydd (10%) | 7,425 |

Nododd Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y targed uchelgeisiol o greu 25,000 o swyddi. Mae'r senario hon sy'n cael ei harwain gan anheddau yn ceisio cefnogi nodau twf rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy osod y gofyniad anheddau ar lefel a fyddai'n arwain at dwf yn y boblogaeth oedran gweithio ar lefel a fyddai'n cefnogi nodau creu swyddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Byddai gofyniad tai o 450 o anheddau y flwyddyn yn gofyn am gynnydd ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol o 6.4%, neu 773 o bobl y flwyddyn. O ran y boblogaeth sy'n gweithio, byddai hyn yn golygu twf yn y boblogaeth oedran gweithio o 2.4%, sydd ar lefel a fyddai'n cefnogi uchelgeisiau twf y Fargen Ddinesig i sicrhau bod gan Gaerffili boblogaeth oedran gweithio ar gael i lenwi'r swyddi hyn.

Mae'r ffigur o 450 o anheddau yn agos at gynrychioli pwynt canol rhwng ffigur cyfraddau adeiladu'r gorffennol o 373 o anheddau'r flwyddyn a ffigur y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig o 575 – lefel a ystyrir yn uchelgeisiol wrth ei hystyried yn erbyn cyfraddau cyflawni'r gorffennol ond sy'n dal yn gyraeddadwy yn realistig.

# Casgliad

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i lleoli o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sydd, trwy ei Bargen Ddinesig, â dyheadau uchelgeisiol o ran yr economi a thwf swyddi. Yn ogystal, mae hefyd wedi'i lleoli o fewn yr Ardal Twf Cenedlaethol a nodir

yn Cymru'r Dyfodol, sy'n ceisio darparu lefel gymesur o dwf yn yr ardal hon. Rhan sylfaenol o unrhyw strategaeth sy'n ceisio bodloni'r gofynion hyn yw poblogaeth sy'n cynnal lefel briodol o dwf.

Byddai lefel y twf a gynigir yn Senario J – Twf ym Mhoblogaeth Oedran Gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn cefnogi dyheadau twf rhanbarthol gan y bydd gweithlu priodol ar gael i gynorthwyo gyda chreu swyddi yn y rhanbarth yn y dyfodol. Byddai'r opsiwn yn gofyn am gynnydd mewn mudo i lefel sy'n uwch na thueddiadau hirdymor, gyda gofyniad anheddau o 450 o anheddau'r flwyddyn, sydd hefyd yn uwch na thueddiadau hirdymor y gorffennol. Er bod y ffactorau hyn yn uwch na thueddiadau hirdymor, mae'r astudiaeth ranbarthol yn nodi, er bod y rhain yn uchelgeisiol, bod modd eu cyflawni yn y cyd-destun rhanbarthol.

Felly, mae'r Cyngor yn parhau i gredu bod Senario J – Twf ym Mhoblogaeth Oedran Gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn parhau i fod yn lefel realistig o dwf y gellir ei chyflawni ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

# Y camau nesaf

Bydd papur sylfaen dystiolaeth *EB4 Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai Hydref 2022* yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau pellach, yn barod ar gyfer Cam Adneuo paratoi'r cynllun.